# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1380(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 21 Mawrth 2006

**At Nick Bourne ac Alun Cairns**

Yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 21 Mawrth, dywedais y byddwn yn gofyn i fy ystadegwyr ddarparu manylion am y problemau gyda'r dadansoddiad a geir yn yr erthygl yn y *Financial Times* ar 20 Mawrth o dan y teitl "Forgotten Britain: how Labour has presided over a deepening divide". Mae'r deunydd yma wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Y brif neges yw bod y brasamcanion a ddefnyddir yn yr erthygl i amcangyfrif Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn anghywir ac yn tanamcangyfrif twf y sector preifat yng Nghymru.

O blith y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, dim ond Cymru sydd wedi gweld cynnydd canrannol mwy mewn cyflogaeth sector preifat na chyflogaeth sector cyhoeddus ers 1999. Cymru hefyd sydd wedi gweld y cynnydd canrannol mwyaf mewn cyfanswm cyflogaeth dros y cyfnod hwn. Yn ogystal, rhwng 1999 a 2004 bu cynnydd canrannol mwy yng nghyfanswm GVA y pen yng Nghymru nag yn y DU gyfan.

Hyderaf fod hyn yn helpu i egluro pam yr wyf yn teimlo bod y dadansoddiad yn yr erthygl yn gamarweiniol.

**Twf o ran GVA a chyflogaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat: erthygl yn y *Financial Times*, 20 Mawrth 2006**

Mae’r dadansoddiad yn yr erthygl yn y *Financial Times* wedi ei seilio ar yr amcangyfrifon GVA rhanbarthol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nid oes amcangyfrifon swyddogol o’r rhaniad o ran GVA rhwng y sector cyhoeddus a’r sector preifat, ond mae'r awduron wedi llunio eu hamcangyfrifon eu hunain yn seiliedig ar sectorau diwydiant. (Mae'r awduron hefyd wedi llunio eu hamcangyfrifon termau real o GVA rhanbarthol.)

Mae'r erthygl hon yn cynnwys amcangyfrifon o dwf blynyddol mewn GVA yn y sectorau cyhoeddus a phreifat rhwng 1997 a 2003. Dros y cyfnod hwn, mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod twf GVA blynyddol cyfartalog yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi bod bron i dair gwaith hynny yn y sector preifat. Ar gyfer y DU gyfan, mae twf blynyddol cyfartalog wedi bod ychydig yn uwch yn y sector cyhoeddus nag yn y sector preifat.

Mae'r amcangyfrifon GVA ar gyfer y sector cyhoeddus yr erthygl wedi cael eu llunio drwy gyfuno tri sector diwydiant:

- Gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol;
- Addysg;
- Iechyd a gwaith cymdeithasol.

Mae’r cyntaf o'r rhain yn y sector cyhoeddus, ond mae'r ddau arall yn cwmpasu’r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae yna hefyd rannau o'r sector cyhoeddus sydd y tu allan i’r tri sector diwydiant yma. O ganlyniad, mae’r dadansoddiad ar lefel sector diwydiant yn frasamcan gwael o’r rhaniad GVA rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae’n arbennig o wael wrth edrych ar newid dros amser. Mae hyn oherwydd bod gweithgaredd sector preifat yn y diwydiannau hyn wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae gweithgaredd sector cyhoeddus y tu allan i’r diwydiannau hyn wedi bod yn gostwng.

Er nad oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o GVA yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn is na lefel y DU, mae yna amcangyfrifon swyddogol o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar gyfer gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Cafodd y rhain eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn *Sector Employment Trends 2005* ac maen nhw hefyd yn cael eu defnyddio yn yr erthygl yn y *Financial Times*. Mae'r amcangyfrifon hyn yn dangos bod cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cynyddu 6 y cant rhwng 1999 a'r flwyddyn hyd at ganol 2005, o'i gymharu â 11 y cant ar gyfer y DU. Gellir hefyd cyfrifo amcangyfrifon cyflogaeth yn y sector preifat o’r ddogfen hon, ac maent yn dangos twf yng Nghymru dros y cyfnod hwn o 10 y cant (o'i gymharu â 4 y cant yn y DU).

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth o'r Arolwg o'r Llafurlu, ac yn seiliedig ar amcangyfrifon cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol. Gellir hefyd defnyddio’r Arolwg o'r Llafurlu i gael dadansoddiad o’r sector yn ôl sector diwydiant. Mae'r tabl isod yn dangos y newid mewn cyflogaeth yng Nghymru yn sectorau cyhoeddus a phreifat, a hefyd yn ôl sector diwydiant. Mae'r ffigurau hyn yn gyson â'r rhai a gyhoeddwyd yn *Public Sector Employment Trends 2005.*

**Cyflogaeth yng Nghymru yn ôl sector a diwydiant, mewn miloedd**

| | 1999 | Y flwyddyn hyd at Meh 05 | Newid canrannol |
|---|---|---|---|
| Sector cyhoeddus | | | |
| Gweinyddu cyhoeddus, iechyd, addysg | 236 | 260 | 10% |
| Sectorau diwydiant eraill | 51 | 43 | -15% |
| **Cyfanswm y sector cyhoeddus** | **287** | **304** | **6%** |
| | | | |
| Sector preifat | | | |
| Gweinyddu cyhoeddus, iechyd, addysg | 115 | 142 | 24% |
| Sectorau diwydiant eraill | 798 | 859 | 8% |
| **Cyfanswm y sector preifat** | **913** | **1,000** | **10%** |
| | | | |
| *Cyfanswm sectorau diwydiant* | | | |
| *Gweinyddu cyhoeddus, iechyd, addysg* | *350* | *402* | *15%* |
| *Sectorau diwydiant eraill* | *849* | *902* | *6%* |

Ffynhonnell: 'Public Sector Employment Trends and Labour Force Survey', cyfartaledd dros 4 chwarter

Fe wnaeth cyflogaeth yng Nghymru yn y sectorau diwydiant cyfunol gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd gynyddu 15 y cant rhwng 1999 a'r flwyddyn hyd at ganol 2005, ac fe wnaeth gweddill cyflogaeth gynyddu 6 y cant.

Felly bu cynnydd canrannol mwy mewn cyflogaeth yn y sector preifat nag mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, ond mae'r procsi am y sectorau diwydiant yn yr erthygl yn y *Financial Times* yn dangos patrwm i'r gwrthwyneb. Mae'r gwrthddweud hyn yn codi oherwydd bod cyflogaeth yn y sector preifat yn y tri sector diwydiant yma wedi bod yn cynyddu tra bod cyflogaeth yn y sector cyhoeddus y tu allan i'r sectorau diwydiant yma wedi bod yn gostwng.

Nid yw dadansoddiad o'r sectorau diwydiant yn darparu procsi dibynadwy ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau dros amser.